Papur y Bwrdd

14 Mai 2014

Teitl y Papur	**Datganiad Strategaeth Hamdden a Mynediad 2014/15**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 42.14**
Paratowyd y Papur gan:	**Rhian Jardine**: Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (KSP) **Jont Bulbeck**: Arweinydd Tîm Hamdden, Mynediad a Thwristiaeth, Cymunedau Cynaliadwy, KSP **Roz Owen**: Rheolwr Hamdden a Mynediad (tir ein hunain a thir wedi'i reoli) Cymunedau Cynaliadwy, KSP

Pwrpas y Papur:	**Penderfynu**
Argymhelliad:	**Cymeradwyo** Datganiad Strategaeth Hamdden a Mynediad 2014/15 a **chymeradwyo'r** broses a ddisgrifir ar gyfer datblygu strategaeth.
Angen Penderfyniad:	oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae mynediad a gweithgareddau hamdden yn gallu cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd. Byddwn yn cynllunio'n gwaith yn y maes hwn mewn modd sy'n cynnal a gwella'r adnoddau naturiol a ddefnyddir, a bydd yn helpu pobl i ddeall a gofalu am yr amgylchedd trwy ddefnyddio dulliau priodol. **Effaith ar yr Economi**: Mae ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith ar gyfer cymunedau a mentrau lleol yn deillio'n aml o gyfleoedd hamdden yn yr awyr agored, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n dibynnu'n economaidd ar weithgareddau ymwelwyr ag yng nghyffiniau'r ardaloedd hynny. **Effaith ar y Gymuned**: Mae hamdden awyr agored yn gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd a lles poblogaeth Cymru. Mae'r awyr agored yn gallu cynnig cyfleoedd i bob sector o gymdeithas ac mae dulliau hyrwyddo, cyfleusterau a mynediad priodol yn gallu

	gwella cynhwysiant cymdeithasol. **Effaith ar Wybodaeth**: Rhaid i'n gwaith o gyflawni'r Datganiad hwn fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chydlynus - gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth sydd ar gael a sicrhau bod ein gweithgareddau yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n gadarn.

Pwnc

1. Er mwyn symud tuag at reoli adnoddau naturiol, bydd angen ystyried anghenion defnyddwyr hamdden a mynediad ac ystyried unrhyw ddarpariaeth o fewn cynllun rheoli ehangach; lle gellir ystyried pob agwedd ar fanteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
2. Mae'r Datganiad Strategol yn cyflwyno ein bwriad lefel uchel ar gyfer gweithgareddau hamdden a mynediad awyr agored, i staff Cyfoeth Naturiol Cymru a'n rhanddeiliaid ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.
3. Mae'r Datganiad yn darparu cysylltiad rhwng Cynlluniau Corfforaethol a Busnes a Chynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Y nod yw cynorthwyo pob Cyfarwyddiaeth wrth iddynt fynd i'r afael â gweithgareddau cynllunio a gweithredu hamdden a mynediad yn ystod 2014/15.
4. Mae'r Datganiad yn cyflwyno ein canlyniadau a'n hamcanion strategol yn ogystal â fframwaith o egwyddorion arweiniol, ac yn pwysleisio'r heriau o'n blaenau.
5. Bydd y Datganiad dros dro hwn yn sail i'r Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored a gaiff ei datblygu yn ystod 2014/15, ac a fydd yn disodli'r Datganiad hwn.

Crynodeb

6. Mae cwmpas y Datganiad hwn yn eang iawn – mae'n cwmpasu'r modd:
    - Rydym ni'n rheoli ein hystâd o safbwynt hamdden a mynediad
    - Rydym yn hwyluso pobl eraill i ddefnyddio'r ystâd at ddibenion mynediad a hamdden
    - Rydym yn gweithio gydag eraill i hwyluso a hyrwyddo hamdden a mynediad ledled Cymru.
7. Bydd y Datganiad yn llywio gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2014/15 ac yn ein galluogi i siarad a gweithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid a Llywodraeth Cymru, gyda hyder a sicrwydd o'n cyfeiriad strategol.
8. Datblygwyd cynnwys y Datganiad hwn gan ddefnyddio gwybodaeth a syniadau a gasglwyd yn ystod cyfres o weithdai mewnol ym mis Tachwedd 2013, ac o weithdai ymgynghori allanol y Cynllun Corfforaethol a gynhaliwyd gyda fforymau perthnasol gan gynnwys Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

Cefndir

9. Gweler Atodiad 1: Datganiad Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored.

Camau Nesaf

10. Os bydd y Datganiad Strategaeth hwn yn cael ei **gymeradwyo**, bydd y broses o ddatblygu'r Strategaeth yn cychwyn. Gweler Atodiad 2 o'r papur hwn am gynllun amlinellol ar gyfer datblygu'r strategaeth.

Risgiau

11. Gweler Atodiad 2 y Datganiad Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored atodedig.

Goblygiadau Ariannol

12. Bydd angen cynllunio gofalus ar draws y Cyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau a chynnal ein cyfleoedd a'n rhwymedigaethau hamdden a mynediad, a rhaglenni cyhoeddus. O ran ein tiroedd ni, bydd goblygiadau torri coed yn sgil P.ramorum yn cael effaith sylweddol ar ein seilwaith hamdden.

Cyfathrebu

13. Nid ydym wedi llunio cynllun cyfathrebu llawn ar gyfer y Datganiad mewnol hwn hyd yma. Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a chadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol wedi cael gwybod am gyfeiriad cyffredinol y Datganiad, ynghyd â'r camau nesaf a'r broses o ddatblygu Strategaeth lawn. Byddwn yn creu cynllun cyfathrebu wrth ddatblygu'r Strategaeth, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

14. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru oblygiadau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn ein hystyried yn ddarparwr gwasanaethau o safbwynt ein tir ein hunain.

    Rydym wedi penderfynu nad oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn achos y Datganiad Strategaeth hwn; fodd bynnag, bydd angen AEG llawn ar ein Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored.

Mynegai o'r Atodiadau

15. Atodiad 1: Datganiad Strategaeth Hamdden a Mynediad Awyr Agored - DRAFFT
Atodiad 2: Cynllun Amlinellol ar gyfer Datblygu Strategaeth Hamdden a Mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru - DRAFFT